SHERMAN
THEATR • THEATRE











*2024*

# ADOLYGIAD O’R FLWYDDYN

# CYFLWYNIAD

**Dychmygwch fyd sydd wedi'i wneud yn decach, yn fwy tosturiol, yn fwy unedig gan rym theatr. Rydyn ni'n benderfynol bob dydd i gyflawni'r weledigaeth yma. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu a churadu cyd-brofiadau theatr byw sy'n ysbrydoli pobl o bob cefndir ledled y de-ddwyrain i greu byd gwell, yn eu ffordd eu hunain. Rydyn ni'n credu bod mynediad at greadigrwydd a hunanfynegiant yn hawl, ac rydyn ni bob amser yn ymdrechu i sicrhau bod gan bawb gyfle i gael eu cyfoethogi gan gelfyddyd theatr.**

Drwy ganolbwyntio ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd, ac ar feithrin artistiaid sy'n byw neu sy'n dod o Gymru, rydyn ni'n bwerdy i theatr Cymru. Rydyn ni'n adrodd straeon o Gymru sy'n berthnasol i'r byd drwy ein cynyrchiadau Gwnaed yn y Sherman, sydd wedi'u creu o dan ein to ni yma yng nghanol Caerdydd. Rydyn ni'n lle i bawb, sy'n creu cyfleoedd i ddinasyddion y de-ddwyrain ymwneud â'r theatr drwy waith ymgysylltu ysbrydoledig sy'n llawn gweledigaeth.



# CREU THEATR EITHRIADOL I BOBL Y DE-DDWYRAIN A'R TU HWNT

Roedd 2024 yn flwyddyn lwyddiannus arall i Theatr y Sherman. Drwy gydol y flwyddyn fe wnaethon ni barhau i greu a churadu gwaith theatr ddyrchafol. oedd yn taro tant gyda chynulleidfaoedd sy'n dal i dyfu, gan dderbyn canmoliaeth o sawl cyfeiriad.

Roedd ein cynyrchiadau Gwnaed yn y Sherman, a grëwyd o dan ein to ni yng nghanol Caerdydd, yn adrodd straeon lleol sy'n berthnasol i'r byd.

5

Crëwyd pum cynhyrchiad cynta'r byd o ddramâu gan awduron sy'n byw neu sy'n dod o Gymru.

181

Cafodd cynyrchiadau Gwnaed yn y Sherman eu perfformio 181 o weithiau ar ein llwyfannau.

7

Llwyfannwyd saith cynhyrchiad CRËWYD YN Y SHERMAN i gyd, pob un wedi'u creu o dan ein to ni yma yn Cathays.

Cyflwynwyd dwy daith ledled Cymru yn 2024:

# IPHIGENIA YN SBLOT a LITTLE RED RIDING HOOD / YR HUGAN FACH GOCH









> **“Addasiad Cymraeg emosiynol ac angerddol o glasur modern.”**

★★★★ The Stage am *Iphigenia yn Sblot*



“

wedi’i chyfarwyddo gyda digonedd o galon gan Joe Murphy.”

★★★★

The Telegraph am *Odyssey ’84*

“

Yn gysyniadol wych, gyda chymeriadau cymhleth a chast eofn, mae drama gyntaf Azuka Oforka yn archwiliad rhyfeddol o fenywod yn byw o dan wladychiaeth sy’n taro tant cyfoes.”

★★★★★

The Guardian am *The Women of Llanrumney*



98%

Fe wnaeth 98% o aelodau'r gynulleidfa a holwyd sgorio cynyrchiadau CRËWYD YN Y SHERMAN 2024 fel rhai da neu dda iawn.

## Canmoliaeth gan gynulleidfaoedd y Sherman:

### A CHRISTMAS CAROL

*"I thought the show was excellent family entertainment"*

*"It was absolutely fantastic, we all loved it"*

*"Such a high calibre production"*

*"Absolutely brilliant!"*

### THE WIFE OF CYNCOED

*"The best production I've seen this year"*

*"The show was blooming brilliant"*

*"Just brilliant"*

*"Excellent"*

### ODYSSEY '84

*"A spectacular production in a wonderful theatre"*

*"Outstanding production"*

*"I absolutely loved this play"*

*"Interesting and moving, an excellent play"*


### THE WOMEN OF LLANRUMNEY

*"Absolutely superb play. Well written, brilliantly cast and informative. Would watch it again tomorrow if I could."*

*"This was the most powerful experience I've had in the theatre for a long time"*

*"Extraordinary"*

*"One of the most memorable shows I've seen"*



307

Ar draws ein cynyrchiadau Gwnaed yn y Sherman a'n rhaglen wedi'i churadu o gwmnïau gwadd, llwyfannwyd 307 o berfformiadau yn y Sherman.

*The Wife of Cyncoed*

# CYDNABYDDIAETH



AR Y RHESTR FER
Gwobrau Sky Arts 2024 – Categori theatr

Cyrraedd y RHESTR FER yng nghategori Theatr y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Stage yn 2024 a 2025

Azuka Oforka
ENILLYDD
Awdur Gorau, Gwobrau Datblygu'r Stage 2024

STAGE 100
Cynnwys Joe Murphy a Julia Barry yn y rhestr o'r bobl fwyaf dylanwadol yn y diwydiant theatr

50 SIOE ORAU 2024
Dewiswyd THE WOMEN OF LLANRUMNEY yn rhestr y Stage o 50 sioe orau'r flwyddyn



# CYNYRCHIADAU GWNAED YN Y SHERMAN 2024

**Premières byd gan awduron sy’n byw neu sy’n dod o Gymru:**



### THE WIFE OF CYNCOED
Gan Matt Hartley



### THE WOMEN OF LLANRUMNEY
Gan Azuka Oforka



### COUPLE GOALS
Gan Rhiannon Boyle

*Ein cywaith gyda’r Coleg Cerdd a Drama ar gyfer eu gŵyl, NEWYDD ’24*



### ODYSSEY ’84
Gan Tim Price



### LITTLE RED RIDING HOOD
### YR HUGAN FACH GOCH
Gan Katie Elin-Salt wedi’i chyfieithu i’r Gymraeg gan Lily Beau



*Cynhyrchiad newydd*

### IPHIGENIA YN SBLOT
Gan Gary Owen

*Adfywio*

# A CHRISTMAS CAROL

*Gan* Gary Owen



# ADEILADU CYNULLEIDFAOEDD AR GYFER THEATR YNG NGHYMRU

Drwy gydol 2024, parhaodd maint ein cynulleidfaoedd i gynyddu, wrth i ni werthu'r nifer fwyaf o docynnau yn hanes modern Theatr y Sherman. Gyda'n cynyrchiadau CRËWYD YN Y SHERMAN fe lwyddon ni i gynyddu'r cynulleidfaoedd unwaith eto ar gyfer gwaith ysgrifennu newydd o Gymru.

54,000

## Gwerthwyd dros 54,000 o docynnau yn 2024.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 9% ar 2023.


Torri record gyda'r rhediadau o ODYSSEY '84 ac A CHRISTMAS CAROL.

Profodd dros 14,500 o blant waith theatr eithriadol yn y Sherman yn ystod Nadolig 2024.

14,500



A CHRISTMAS CAROL – y sioe fwyaf poblogaidd ac sydd wedi gwerthu fwyaf yn hanes diweddar y Sherman.



ODYSSEY '84 – y cynhyrchiad Prif Theatr mwyaf poblogaidd ac sydd wedi gwerthu fwyaf o blith holl gynyrchiadau hydref GWNAED YN Y SHERMAN.




Dau rediad lle gwerthwyd pob tocyn o gynyrchiadau CRËWYD YN Y SHERMAN o ddramâu newydd gan awduron sy'n byw yng Nghymru yn ein Stiwdio, THE WIFE OF CYNCOED a THE WOMEN OF LLANRUMNEY.

Fe wnaethon ni barhau i sicrhau bod theatr eithriadol o fewn cyrraedd pawb drwy ein prisiau hygyrch a'n tocynnau Talwch Faint Fynnwch Chi. Daeth 1602 o bobl i'r theatr drwy gynllun Talwch Faint Fynnwch Chi.

1.602

# GRYM YN THEATR CYMRU

**Yn 2024, parhaodd Theatr y Sherman i fod wrth galon y theatr yn y de-ddwyrain: gan ddatblygu a meithrin awduron sy'n byw neu sy'n dod o Gymru ar bob cam o'u gyrfaoedd; cefnogi gwneuthurwyr theatr a chwmnïau newydd a gwasanaethu fel gofod creadigol cynhwysol ar gyfer y sector cyfan.**

- Drwy gydol 2024, bu ein tîm Llenyddol yn rhyngweithio neu'n gweithio gyda mwy na **200** o awduron sy'n byw neu sy'n dod o Gymru.
- Cymerwyd **175** o weithwyr llawrydd ymlaen yn ystod 2024, gan gynrychioli cyfanswm o **284** o ddarnau o waith
- Cynhaliwyd dros **22** o sesiynau i awduron sy'n cyfateb i dros **33** awr o hyfforddiant am ddim.
- Darllenwyd dros **60** o sgriptiau gan awduron sydd heb eu comisiynu na'u rhaglennu gan y Sherman, sy'n dangos ein cefnogaeth i'r sector ehangach.
- Cafwyd cyfarfodydd gyda thros **75** o awduron unigol mewn amgylchedd un-i-un, i drafod eu dramâu a chefnogi datblygiad eu gyrfa.
- Cynhaliwyd a chefnogwyd naw proses ymchwil a datblygu gyda chwmnïau ac artistiaid newydd, gan ddatblygu eu sioeau yn yr adeilad, yn ogystal â chynnal ein gweithdai datblygu ein hunain ar gyfer y sioeau llwyfan a gafodd eu rhaglennu.
- Yn ogystal, cynigiwyd dros **730** awr o ofod ysgrifennu am ddim i'n hartistiaid, gan ddefnyddio'r Ystafell Awduron yn yr adeilad fel cyd-adnodd.
- Yng Ngŵyl Cyrion Caeredin fe gefnogon ni drydydd cwmni newydd o Gymru yn olynol, sef Polly & Esther, fel rhan o raglen Partneriaethau Cenedlaethol Caeredin y Pleasance. Bydd y sioe i'w gweld yng Ngŵyl fawreddog Adelaide yn 2025. Fe wnaethon ni hefyd gefnogi'r gwneuthurwr theatr Paul Jenkins i gyflwyno'i sioe *Moscow Love Story* yng Ngŵyl y Cyrion.
- Ym mis Medi 2024, cynhaliwyd a chefnogwyd *Splinter*, y cynhyrchiad cyntaf gan ein Cwmni Preswyl – Red Oak Theatre

# YSBRYDOLI POBL IFANC

Parhaodd ein rhaglenni Theatr Ieuenctid ac Ymgysylltu Creadigol nodedig i helpu i greu dinasyddion ifanc ymroddedig sydd ar dân i gael effaith gadarnhaol ar y byd.

353

Cynhaliwyd **353** o sesiynau, digwyddiadau neu weithdai i bobl ifanc.

1,508

Drwy ein rhaglenni Ymgysylltu Creadigol, gweithiwyd neu rhyngweithiwyd â **1,508** o blant a phobl ifanc o bob rhan o’r de-ddwyrain.

# SHERMAN PLAYERS



*Cynhyrchiad Sherman Players 2024*

## OUR COUNTRY'S GOOD

*Gan* Timberlake Wertenbaker

# THEATR IEUENCTID Y SHERMAN



## GŴYL NT CONNECTIONS YN THEATR Y SHERMAN

Yng Ngŵyl NT Connections 2024 yn y Sherman perfformiodd naw cwmni ifanc (gan gynnwys Theatr Ieuenctid y Sherman) dros gyfnod o dri diwrnod. Roedd yn cynnwys y ddrama Gymraeg gyntaf erioed i gael ei pherfformio yn NT Connections. Dewiswyd dau o'r cwmnïau a berfformiodd yn NT Connections i berfformio yng Ngŵyl NT Connections yn Llundain.

## THE PERIODICALS

*Gan* Sian Owen




## HAVE YOUR WELSH CAKE AND EAT IT

*Gan* Davina Morris & Lowri Morgan



# DOD Â CHYMUNEDAU YNGHYD

Fe wnaethon ni barhau i weithio er mwyn helpu i ddod â Chaerdydd ynghyd drwy waith ymgysylltu cymunedol gydol y flwyddyn. Drwy amrywiaeth o fentrau parhaus a chroeso cynnes unigryw, parhaodd y Sherman i fod yn adnodd dinesig hanfodol ac yn lle i bawb.

30

Gweithiwyd yn agos gyda 30 o grwpiau cymunedol o bob rhan o'r de-ddwyrain gan gynnwys: Canolfan Gymunedol Cathays, ECSOPA, The Wallich, Prifysgol Caerdydd a Phartneriaid Glasu Cathays, Côr Un Byd Oasis, Cydweithfa Awrora'r Drindod, The Gambas, y Cylch Canu Wcreinaidd, Dawns Nganga, Plant yng Nghymru, Celfyddydau Aubergine, Rhwydwaith Addysg yn y Cartref, Banc Bwyd Caerdydd, Llyfrgell Glowyr y De, Coleg Cerdd a Drama Cymru a Hynafgwyr Windrush, Big Pit/Amgueddfa Genedlaethol Cymru, U3A, Byd Oshi.

348

Aeth ein tîm Ymgysylltu Creadigol ati i ymgysylltu â thros 348 o bobl drwy ein prosiectau a'n digwyddiadau cymunedol.





Ym mis Tachwedd, yn ein swyddogaeth fel Theatr Noddfa, cynhaliwyd gŵyl Noddfa hynod lwyddiannus gyda chyrhaeddiad uwch eleni a mwy yn cymryd rhan.

Daeth Osian, sy'n un o gleientiaid elusen Wallich, yn aelod o Sherman Players ac aeth ymlaen i gymryd rhan yn ODYSSEY '84 fel rhan o'r Ensemble Cymunedol.

THEATRE OF SANCTUARY AWARD
WELCOMING ASYLUM SEEKERS AND REFUGEES

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Sherman Cymru Productions Ltd | Rhif Elusen Cofrestredig 1118364